LGH-15-01 (p.2)

**PWYLLGOR TAI A LLYWODRAETH LEOL**

**STRATEGAETH TAI ETHNIG, LLEIAFRIFOL, DU I GYMRU**

**PWRPAS**

1. Mae'r papur hwn yn gwahodd y Pwyllgor i ystyried:

- crynodeb o ymatebion i ymgynghoriad ar gynigion y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Strategaeth Tai Ethnig, Lleiafrifol, Du (ELlD) i Gymru (Gweler Atodiad); a
- y camau gweithredol a awgrymir i weithredu'r cynigion (ym mharagraff 10-15 y papur hwn).

**ARGYMHELLIAD**

2. Bod y Pwyllgor yn ystyried y papur hwn ac yn cyflwyno barn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

**AMSERU**

3. Yn ddibynnol ar ystyriaeth o farn y Pwyllgor ar y papur hwn, bwriedir cyhoeddi Cynllun Gweithredu Tai a Chanllawiau ELlD y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai 2002.

**CEFNDIR**

4. Disgrifiai dogfen ymgynghori Strategaeth Tai ELlD i Gymru ddull arfaethedig strategol y Cynulliad Cenedlaethol o ddynodi a diwallu anghenion tai ELlD fel rhan o'i Strategaeth Dai Genedlaethol ehangach.

5. Datblygwyd y ddogfen ymgynghori mewn cydweithrediad â'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a sefydliadau perthnasol eraill. Ceisiai ymdrin â darganfyddiadau yr adroddiad a gomisiynwyd gan y Cynulliad "O'r Cyrion i'r Canol - Asesu'r angen am Strategaeth Dai ELlD yng Nghymru" gan Mutale Nyoni ac argymhellion diweddarach Grwpiau Tasg y Strategaeth Dai Genedlaethol.

6. Dosbarthwyd y ddogfen ymgynghori ym mis Ebrill 2001 i holl sefydliadau cynrychioliadol ELlD, landlordiaid cymdeithasol a chyrff eraill tai-gysylltiedig, yn ogystal ag i bob cynrychiolydd a fynychodd gynhadledd y Cynulliad/Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol "Chwalu’r Ffiniau" ym mis Hydref 2000.

7. Pwysleisiodd y ddogfen ymgynghori bod rhaid i unigolion a chymunedau ELlD fod yn rhan o ddatblygu’r Strategaeth hon o’r cychwyn cyntaf. Yn ogystal ag ymgynghoriad uniongyrchol y Cynulliad â chynrychiolwyr ELlD, gofynnir i landlordiaid cymdeithasol weithio gyda’u tenantiaid a grwpiau cymunedol lleol i sicrhau’r cyfranogiad hwn ar lefel leol.

8. Ystyriodd y Pwyllgor y ddogfen ymgynghori ar 28 Mawrth (LGH-05-01 t.5) a gwahoddwyd y Gweinidog i adrodd ar ganlyniadau’r ymarfer ymgynghori maes o law.

**YSTYRIAETH**

9. Gorffennodd y cyfnod ymgynghori ym mis Gorffennaf. Derbyniwyd cyfanswm o 28 ymateb – ceir rhestr o’r ymatebwyr ar dudalen olaf yr Atodiad. Ceir crynodeb manwl o’r ymatebion yn yr Atodiad.

9. O ystyried y gefnogaeth gyffredinol i’r ddogfen ymgynghori cynigir bod y Cynulliad yn symud ymlaen drwy gyhoeddi Cynllun Gweithredu Tai ELlD ynghyd â chanllawiau erbyn Mai 2002, yn datgan y camau gweithredol penodol y mae angen eu cymryd. Byddai sefydliad arweiniol, amserlen a’r canlyniadau yr anelir atynt yn cael eu nodi’n glir ar gyfer pob un o’r camau hyn. Wrth ddrafftio’r cynllun gweithredu byddai swyddogion yn gwneud defnydd o lawer o’r sylwadau adeiladol a gynigiwyd yn ystod yr ymarfer ymgynghori.
10. Argymhellir gwahodd Gr•p Llywio Prosiect Opsiwn Tai ELlD i ehangu eu cylch gorchwyl i fonitro ac adolygu cyflwyno Cynllun Gweithredol Tai ELlD. Mae’r gr•p llywio yn cynrychioli grwpiau ELlD ledled Cymru.

12. Ar lefel leol, dylai’r cyngor sydd ar ddod oddi wrth y Cynulliad ynghylch strategaethau tai lleol fod yn arweiniad i awdurdodau lleol a’u partneriaid (megis Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig) i fynd i’r afael ag anghenion tai a materion ELlD yn eu strategaeth. Dylai hyn fod yn gymorth i sicrhau bod y sefydliadau tai lleol yn gweithredu’r camau hyn, sydd yn disgyn i’w rhan yn y Cynllun Gweithredu Tai ELlD.

13. Dylid monitro perfformiad sefydliadau tai lleol o ran ymdrin ag anghenion a materion tai ELlD drwy’r gyfundrefn Gwerth Gorau, archwiliadau’r Cynulliad o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac adolygiadau o Gynlluniau Busnes/Gweithredol Tai Awdurdodau Lleol

14. I gynorthwyo i fesur effeithiolrwydd y Cynllun Gweithredu Tai ELlD ar lefel genedlaethol,

cynigir bod y Cynulliad yn cynhyrchu llinell sylfaen o dystiolaeth a fydd yn darparu gwybodaeth ar gyfer gosod a monitro canlyniadau targedau.

15. I gefnogi gweithredu'r Cynllun Gweithredu ei hun, cynigir bod y Cynulliad yn parhau i ariannu ymarfer da, codi ymwybyddiaeth ac ymdrechion i gynyddu cynrychiolaeth ELlD mewn sefydliadau tai, drwy'r "Rhaglen Grant Rheoli Tai Cymdeithasol". Dylai hynny gynnwys parhau i ddarparu cyllid ar gyfer y Prosiect Tai ELlD, sy'n archwilio dichonoldeb sefydlu sefydliad tai du ei arweiniad.

**CYDYMFFURFIO**

16. Mae'r Strategaeth Dai ELlD Genedlaethol yn cydymffurfio â dyletswyddau'r Cynulliad o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976, Deddf Cysylltiadau Hiliol 2000 ac o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1999 o ran cyflawni ei swyddogaethau gyda'r parch dyledus i egwyddorion cyfle cyfartal.

17. Nid oes unrhyw fater yn ymwneud â rheoleidd-dra na phriodoldeb yn gysylltiedig â'r cyflwyniad hwn.

**GOBLYGIADAU ARIANNOL**

Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig

18. Mae Adrannau Cynllunio Ariannol a Chyllid Llywodraeth Leol wedi cynghori cyn hyn y byddai rhaid i unrhyw gostau a godai o weithredu Strategaeth Dai ELlD Genedlaethol gael eu cynnwys o fewn y cyllidebau a gymeradwyir gan y Cynulliad yn ystod Cylchoedd Cynllunio Cyllidebau yn y dyfodol. Byddai angen dynodi a mesur goblygiadau cost ychwanegol i awdurdodau lleol o dan y weithdrefn beichiau newydd yn 2002-2003.

Y Cynulliad Cenedlaethol

19. Bydd y camau gweithredu ym mharagraffau 10-15 uchod sy'n disgyn i ran y Cynulliad yn cael eu hariannu:

- o ddarpariaeth gynlluniedig yn y "Grant Arloesi Rheoli Tai Cymdeithasol" a rhaglenni "Ymchwil Tai"; ac
- o gyllidebau costau gweinyddu cynlluniedig.

**Cangen Cydlynu, Arloesi ac Ymchwil Tachwedd 2001**

**Y Gyfarwyddiaeth Dai**

**Atodiad**

## STRATEGAETH TAI ETHNIG LLEIAFRIFOL, DU I GYMRU

### Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

### Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad ar Strategaeth Dai Ethnig, Lleiafrifol, Du (ELlD) i Gymru.

2. Rhedodd cyfnod yr ymgynghori o 5 Ebrill i 5 Gorffennaf 2001. Derbyniwyd cyfanswm o 28 o ymatebion ysgrifenedig (gweler atodiad).

### Crynodeb o'r Ymatebion

### Sylwadau Cyffredinol

3. Yn gyffredinol, croesawyd ymrwymiad y Cynulliad Cenedlaethol i gymryd camau gweithredu cadarnhaol i ymdrin ag anghenion tai cymunedau ELlD, ac fe gafwyd cefnogaeth eang i nod ac amcanion y Strategaeth.

4. Mynegodd sawl awdurdod lleol bryder ynghylch y penderfyniad i ymdrin ag anghenion tai ceiswyr lloches a ffoaduriaid ar wahân, yn hytrach nag fel rhan integredig o'r strategaeth ELlD, o ystyried yr effaith strategol hir dymor y byddai ceiswyr lloches yn ei chael ar dai.

5. Nododd sawl ymatebydd yr angen am i Strategaeth Dai Genedlaethol fod yn gynwysedig o

fewn mesurau cydraddoldeb ehangach, yn unol â thair prif thema Gwell Cymru. Ystyriai Cymdeithas Tai Clwyd y dylid ymdrin ag anghenion ELlD o fewn agenda ehangach gan landlordiaid cymdeithasol i ddileu gwahaniaethu ac aflonyddu yn erbyn pob parti mewn cymdeithas, boed ar sail hil, anabledd, eithrio cymdeithasol, dadrymuso, diwylliant neu iaith yn ein cymunedau.

6. Ystyriai CS Caerdydd y dylid integreiddio polisïau ELlD gyda pholisïau a gweithgareddau prif ffrwd yr awdurdodau. Dylid ymdrin ag anghenion tai cymunedau ELlD o fewn y strategaeth dai leol ehangach. Tynnodd eraill sylw at yr angen, wrth ddatblygu strategaeth tai ELlD, i fod yn sensitif i faterion eraill ynghylch amrywiaeth, gan gynnwys y materion ieithyddol a diwylliannol penodol sydd yng Nghymru.

7. Awgrymodd Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd y dylid rhoi mwy o elfen o orfodaeth i'r strategaeth. Dylai bod gofyn i awdurdodau lleol ymgorffori strategaeth ELlD leol yn y strategaeth dai leol, a dylai rheoliadau cofrestru landlordiaid cymdeithasol dynnu sylw at fethiannau i gyrraedd safonau'r strategaeth ELlD. Awgrymwyd y dylai fod "canlyniadau adnoddau" i ddarparwyr tai nad ydynt yn ymdrin â materion ELlD yn effeithiol.

8. Ym marn CT Dewi Sant roedd y papur ymgynghori braidd yn ddryslyd ac yn anodd cael ato. Awgrymodd y dylai'r strwythur gael ei adolygu fel bod y strategaeth yn "dechrau ar ddechrau'r broses ac yn helpu i arwain sefydliadau drwy'r broses hynod sensitif a hollbwysig hon".

9. Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at ddiffyg cyfeiriad at swyddogaeth y sector preifat.

10. Awgrymodd sawl ymatebydd y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ddarparu adnoddau ychwanegol i landlordiaid i gefnogi gweithredu'r strategaeth. Tynnodd CS Caerdydd sylw at ddiffyg targed o ran amserlen gweithredu. Dywedodd CT Cadwyn ei bod hi'n bwysig i ganiatáu digon o amser i'w gweithredu rhag cael dim ond newidiadau arwynebol.

**Diffinio Ethnig Lleifarifol, Du**

11. Sylwodd nifer fach o ymatebwyr ar y defnydd o'r term ELlD yn y strategaeth (roedd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol o'i blaid). Tra'i fod yn cael ei gydnabod yn fyrfodd cyfleus, roedd peth pryder bod perygl i'r term awgrymu bod cymunedau o'r fath yn gr•p homogenaidd. Roedd pryder hefyd bod y strategaeth ei hun yn methu rhoi digon o gydnabyddiaeth i amrywiaeth cymunedau ELlD yng Nghymru, a'u hanghenion, eu blaenoriaethau a'u priodoleddau gwahanol. Dylai gweithredu'r strategaeth fod yn gymesur â'r sefyllfa leol.

**Datblygu lledaeniad ymarfer da ac arweiniad**

12. Cafwyd cefnogaeth gan yr ymatebwyr i gyd i'r cynigion hyn, er bod rhai yn teimlo y dylai'r strategaeth ei hun gynnwys rhagor o gyngor ar ymarfer da. Awgryma nifer o'r ymatebion ddatblygu'r dulliau cyfredol o rannu gwybodaeth drwy ffurfioli cyfathrebu rhwng pob parti perthnasol – er enghraifft drwy ddefnyddio llythyron newyddion, llyfrynnau, gwefannau, ac ati. Cynigiodd CIH Cymru gefnogaeth i amcanion y strategaeth drwy ei raglenni seminar, hyfforddi ac ymarfer polisi. Awgrymodd Gr•p Tai Gwalia y dylid cael cynhadledd flynyddol, yn debyg i'r gynhadledd "Chwalu'r Ffiniau" a drefnwyd gan y Cynulliad, i hwyluso dadl ac i godi ymwybyddiaeth.

13. Mynegodd CBS Wrecsam bryder nad oedd gan y Comisiwn Archwilio ddigon o arbenigedd ar faterion ELlD a bod angen eu bwydo â gwybodaeth yn gyson yn y maes hwn.

**Adnabod anghenion tai ELlD**

14. Cafwyd cefnogaeth eang i ddull partneriaethol o asesu anghenion tai ELlD fel rhan o asesiadau anghenion tai lleol a arweinir gan awdurdodau lleol. Ystyriai CT Gwerin Cymru bod yr anogaeth i awdurdodau lleol yn y cyswllt hwn yn wan a bod angen ei chryfhau. Awgrymodd y Prosiect Tai ELlD y dylid annog gweithio ar y cyd a'i wobrwyo drwy feini prawf cyllido a oedd yn rhoi blaenoriaeth i sefydliadau sy'n adlewyrchu anghenion grwpiau ELlD.

15. Awgrymodd CS Penfro y dylid adolygu a diweddaru arweiniad y Cynulliad Cenedlaethol ar asesu anghenion tai lleol i adlewyrchu materion ELlD. Awgrymodd CS Caerdydd y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ddatblygu arweiniad ar sut y dylid diffinio anghenion tai aelwydydd ELlD, fel bod asesiadau yn digwydd ar sail gyffredin.

16. Awgrymodd CBS Wrecsam, o ystyried patrwm cymunedau ELlD mewn rhai rhannau o Gymru, y dylai arolygon anghenion tai ELlD gael eu cynnal ar sail ranbarthol, gyda chefnogaeth ariannol o'r Cynulliad Cenedlaethol

17. Ystyriai Shelter Cymru y dylai amgylchiadau tai aelwydydd ELlD sydd yn byw yn y sectorau rhentu preifat a pherchentyaeth gael eu cynnwys wrth asesu angen.

18. Croesawyd y cynnig ar gyfer ymchwil tair blynyddol wedi ei gomisiynu gan y Cynulliad Cenedlaethol i anghenion cymunedau ELlD. Teimlai un ymatebydd y dylid rhoi mwy o sylw yn y ddogfen i'r angen am ymchwil i'r sefyllfa ELlD yn lleol. Roedd eraill yn pryderu ynghylch perygl "gor-ymchwilio" i gymunedau ELlD, ac fe dynnwyd sylw at yr angen i flaenoriaethu a chydlynu rhaglenni ymchwil cenedlaethol a lleol mewn partneriaeth â sefydliadau ELlD. Ystyriai Prosiect Tai ELlD y dylai'r ymchwil gael ei adolygu bob dwy flynedd o gofio difrifoldeb a brys y newidiadau angenrheidiol.

**Datblygu darpariaeth tai**

19. Roedd cytundeb cyffredinol â’r angen i gymryd cyfrif o anghenion arbennig cymunedau ELlD wrth gynllunio a dylunio tai cymdeithasol, a’r angen i wneud gwasanaethau yn fwy sensitif i ddiwylliant. Tynnodd CS Penfro sylw at yr angen i ofynion ELlD gael eu cynnwys mewn polisïau cynllunio lleol, megis y Cynllun Datblygu Unedol. Croesawyd bwriad y Cynulliad i adlewyrchu anghenion tai ELlD mewn safonau dylunio.

20. Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at yr angen am ragor o hyblygrwydd yn nhrefniadau cyllido’r Cynulliad, i hwyluso atebion mwy arloesol i ddylunio tai. Tynnodd un ymatebydd sylw at yr angen am gyhoeddi yr ymarfer cyfredol gorau gan landlordiaid cymdeithasol, ac awgrymodd sefydlu cynllun gwobrwyo cenedlaethol i gydnabod dyluniadau arloesol i dai ac amgylcheddau.

21. Tynnodd CT Cymuned Caerdydd sylw at yr angen am fewnbwn ystyrlon gan gynrychiolwyr a thenantiaid ELlD i benderfyniadau cynllunio a dylunio. Yn yr un modd, dylai’r Cynulliad Cenedlaethol gynnwys tenantiaid o bob cymuned wrth adolygu safonau dylunio.

22. Wrth gefnogi’r cynigion, sylwodd CT Dewi Sant bod yr adran hon yn awgrymu nad oedd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig wedi gwneud dim i ystyried gofynion ELlD hyd yn hyn, ac awgrymwyd y dylai’r strategaeth gydnabod gwaith megis yr hyn a oedd eisoes wedi digwydd yng Nghaerdydd ac Abertawe. Tynnodd ymatebwyr eraill hefyd sylw at fentrau yr oeddent wedi ymgymryd â hwy.

**Cyflwyno Gwasanaeth**

23. Cafwyd cefnogaeth eang i’r disgwyliad yn yr adran hon y dylai cynlluniau gosod fod yn deg ac yn hygyrch i aelwydydd ELlD, ac y dylid eu hadolygu’n gyfnodol i sicrhau eu bod yn parhau i beidio â gwahaniaethu. Ystyriai nifer o ymatebwyr bod posibilrwydd i’r meini prawf preswylydd lleol mewn polisïau gosod wahaniaethu yn erbyn ELlD ac ymgeiswyr eraill nad oedd ganddynt gysylltiad o’r fath ag ardal.

24. Croesawyd sefydlu Seinfwrdd ac archwiliad topig y Cynulliad Cenedlaethol o bolisïau eithrio gosodiadau. Tra bod ymatebwyr yn gyffredinol yn croesawu’r cynigion ar gyfer sicrhau bod ymgeiswyr yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau mwy gwybodus ynghylch gosodiadau, roedd nifer yn bryderus na ddylai hynny arwain yn ddigymell at greu ardaloedd "caeedig" i aelwydydd ELlD. Awgrymodd y Prosiect Tai ELlD lle bo perygl ynysedd neu boendod hiliol, y dylid rhoi pwyslais ar ddarparu mecanweithiau cefnogi i leihau’r tebygrwydd o ardaloedd felly’n cael eu creu. Awgrymodd CT Taf y dylai cyllid ychwanegol fod ar gael i gwrdd â chostau gwneud gwybodaeth yn fwy hygyrch e.e. costau cyfieithu.

25. Mae nifer o ymatebwyr yn gofyn am ragor o wybodaeth am y methodolegau a ddefnyddir wrth ymgymryd ag adolygu polisïau gosod. Awgrymodd CS Penfro y dylai’r strategaeth

gynnwys enghreifftiau o ymarfer da. Tynnodd eraill sylw at yr angen i gynnwys cynrychiolwyr ELlD.

26. Ystyriai Shelter Cymru y dylai'r adolygiad o'r polisïau eithrio hefyd ymdrin ag effaith tenantiaethau cyflwyniadol ar aelwydydd ELlD. Hefyd, dylai'r adolygiad o wasanaethau awdurdodau lleol gynnwys gwasanaethau i'r digartref, yn enwedig lefel yr ymwybyddiaeth ymhlith cymunedau ELlD o ddyletswyddau posibl yr awdurdod lleol i bobl ddigartref. Awgrymodd hefyd, yng ngoleuni darganfyddiadau'r archwiliad diweddar o wasanaethau cynghori ar dai, y dylid adolygu effeithiolrwydd darpariaeth o'r fath o ran cyfathrebu a chyflwyno gwasanaethau i aelwydydd ELlD.

27. Holodd CT Gwerin Cymru ai'r bwriad oedd i anghenion cymunedau ELlD gael eu hintegreiddio i asesiadau pwynt gosod, ynteu ai'r gofyn oedd sicrhau nad oedd y meini prawf yn gwahaniaethu yn erbyn neu'n eithrio Grwpiau ELlD.

28. Ystyriai CT Dewi Sant fod y papur yn methu â chydnabod cydymffurfiad landlordiaid cymdeithasol cofrestredig â Chod Ymarfer Tai ar Rent y Comisiwn Cydradolddeb Hiliol , fel y gofynnwyd gan Ofyniadau Rheoliadol y Cynulliad. Yn yr un ffordd tynnodd Ffederasiwn Cymdeithasu Tai Cymru (FfCTC) sylw at ddatblygiad gwasanaethau i roi lle i anghenion ELlD gan lawer o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ledled Cymru. Er hynny, croesawodd y Prosiect Tai ELlD ddatblygiad cynlluniedig y codau ymarfer newydd dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2000, gan awgrymu bod y cod cyfredol yn cael ei anwybyddu gan lawer o awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Awgrymodd y dylid cael cosbau am beidio â chydymffurfio â'r cod newydd.

29. Mynegodd CT Cymuned Caerdydd bryder bod yr adran ar gyflwyno gwasanaethau wedi ei chyfyngu i fynediad at dai. Ystyriai y dylai hefyd roi sylw i'r potensial am wahaniaethu ac anwybyddu effeithiau diwylliannol ym mhob maes o gyflwyno gwasanaethau – ee ansawdd tai, gwasanaeth trwsio, rheoli tenantiaethau ac ati. Tynnodd CT Clwyd sylw at yr angen am i gyflwyno gwasanaethau sicrhau cydraddoldeb a thegwch i bod adran o gymuned, heb ffafrio unrhyw adran(nau) arbennig, a allai arwain at ddrwgdeimlad rhwng cymunedau.

30. Wrth gefnogi'r cynigion, tynnodd CIH Cymru gymhariaeth rhwng y term "gosodiadau" yn nogfennau diweddaraf y Cynulliad Cenedlaethol, a'r defnydd o'r "…term mwy nawddogol, sef dyraniadau…" yn y strategaeth ddrafft.

**Strategaethau Tai ELlD Lleol**

31. Cafwyd ymateb cymysg i'r cynnig y dylai <u>pob</u> landlord cymdeithasol fod â strategaeth tai ELlD sensitif i'r ardal, hyblyg, ysgrifenedig, a chlir yn ei lle. Cefnogai rhai ymatebwyr y cynnig o ran egwyddor, er bod llawer o amheuon. Cafwyd cefnogaeth gref i ddatblygu strategaethau ar sail awdurdod lleol cyfan, yn hytrach nag ar lefel landlord cymdeithasol unigol. Tynnodd eraill

sylw at ddatblygu prosesau ymgynghori a strategaethau rhanbarthol ar draws nifer o ardaloedd awdurdodau lleol fel dewis arall.

32. Ystyriai CS Caerdydd y gallai strategaethau tai ELlD arwain at eithrio polisïau ELlD o weithgarwch prif ffrwd awdurdodau, ac y dylid ymdrin ag anghenion cymunedau ELlD, o fewn strategaeth dai drosfwaol ardal. Yn yr un ffordd ystyriai eraill y dylid ymgorffori strategaethau ELlD o fewn strategaeth tai awdurdod.

33. Ystyriai CBS Castell-nedd Port Talbot y dylai'r arweiniad ei gwneud hi'n glir bod strategaeth dai ELlD yn rhan gydrannol o strategaeth cydraddoldeb hiliol gyfansawdd awdurdod, yn enwedig gan y gallai cyfrifoldeb am y swyddogaeth letya ddisgyn i ran nifer o adrannau gwasanaethau awdurdod lleol, gan fynnu dull corfforaethol at ei gyflwyno.

34. Mynegodd CT Gwerin bryder ynghylch y goblygiadau i sefydliadau sydd â chynlluniau tai bychain yn bennaf wedi eu gwasgaru dros gymunedau ac ardaloedd awdurdodau lleol niferus. Ystyriai nad oedd digon o arweiniad ymarferol ar y gweithredu a'r cynnwys a ddisgwylid mewn strategaethau lleol.

35. Gwelodd CBS Wrecsam angen i'r Cynulliad Cenedlaethol ddatblygu "model" o strategaeth tai ELlD lleol. Galwodd Gr•p Tai Gwalia am sesiynau hyfforddi ar eu datblygu.

**Mynd I'r Afael ag Aflonyddu Hiliol**

36. Derbyniodd y cynigion hyn gefnogaeth lawn y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, gyda llawer yn cyfeirio at bolisïau gwrth-aflonyddu grymus sydd ar waith eisoes. Pryderai y Prosiect Tai ELlD fodd bynnag ynghylch y gefnogaeth ariannol i'r Wefan Gweithredu Hiliol, gan ei bod hi'n bosibl nad oedd gan nifer o ddioddefwyr aflonyddu hiliol fynediad i'r Rhyngrwyd.

37. Ystyriai CT Dewi Sant bod y strategaeth yn methu â chydnabod mater y raddfa a'r cyd-destun, ei bod yn rhy ragnodol ac yn awgrymu diffyg ymateb gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Awgrymodd y dylai polisïau aflonyddu hiliol ffurfio rhan o bolisi ymddygiad gwrth-gymdeithasol ehangach yn ymdrin â phob math o aflonyddu ac erledigaeth.

38. Cefnogodd CT Clwyd Alun hefyd ddatblygu polisïau aflonyddu gyda chydlynu rhanbarthol cryf, fel rhan o strategaeth droseddol/gwrth-gymdeithasol gyffredinol.

39. Tra bod y WTF yn cefnogi'r holl gamau i ddileu aflonyddu hiliol, tynnodd sylw at y ffaith bod aflonyddu yn bodoli ar nifer o stadau heb ystyried oed, rhyw, crefydd na diwylliant. Ychwanegodd bod problemau gyda phob math o ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn dod yn nodwedd amlwg a godir mewn cyfarfodydd tenantiaid. Y teimlad a ganfyddwyd ymhlith

tenantiaid, pa mor gam bynnag, oedd "rydym ni i gyd yn dioddef aflonyddu ond os yw'n hiliol fe gewch eich trin yn well".

40. Dadleuodd CIH Cymru a CT Clwyd Alun y gallai ystod o grwpiau brofi aflonyddu hiliol, gan gynnwys pobl ddi-Gymraeg, Gwyddelod, teithwyr, Iddewon a phobl o Ddwyrain Ewrop. Awgrymodd CIH Cymru hefyd y dylid annog landlordiaid i fabwysiadu diffiniad Adroddiad McPherson o aflonyddu hiliol wrth ffurfio'u polisïau, eu gweithdrefnau a'u hymarferion *("Mae unrhyw ddigwyddiad a ganfyddir yn hiliol gan y dioddefwr neu unrhyw berson arall yn ddigwyddiad hiliol.")*

41. Awgrymodd FfCTC a CT Taf y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried sefydlu llinell gymorth genedlaethol i gynnig arweiniad i ddioddefwyr a landlordiaid.

42. Tynnodd CS Penfro, CT Cymuned Caerdydd a Gr•p Tai Gwalia sylw at yr angen i sefydliadau roi cyhoeddusrwydd i'w polisïau a'r camau gweithredu a gymerwyd fel ffordd o rwystro aflonyddu hiliol.

**Grymuso pobl o gymunedau ELlD**

43. Croesawyd yr egwyddorion a amlinellwyd yn y strategaeth yn gyffredinol. Awgrymodd CBS Wrecsam bod angen i'r Comisiwn Archwilio ddod yn "ganolfan wybodaeth am ofynion" a throsglwyddo'r arweiniad hwn i awdurdodau lleol cyn arolygiadau'r Gwerth Gorau.

<u>Rheolaeth</u>

44. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i fwriadau'r Cynulliad Cenedlaethol i nodi'r ymarfer gorau sy'n annog cynrychiolaeth ELlD ac i ystyried ffyrdd o gynyddu cynrychiolaeth. Mynegodd llawer o ymatebwyr bryder fodd bynnag.

45. Mynegodd CT Dewi Sant ei bod hi'n gymharol anodd recriwtio aelodau i'r bwrdd oherwydd natur wirfoddol y rôl. Awgrymodd y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol hyrwyddo aelodaeth o'r bwrdd yn ehangach, a chomisiynu ymchwil cysylltiedig. Dadleuodd sawl ymatebydd arall o blaid cynyddu adnoddau ar gyfer yr hyfforddi y byddai ei angen ar y rhai hynny yn y gymuned ELlD a oedd yn dymuno datblygu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer cynrychiolaeth reolaethol effeithiol.

46. Tynnodd CS Abertawe, FfCTC a CT Gwerin Cymru yn eu tro sylw at broblemau ymarferol o ran sicrhau bod cynrychiolaeth ELlD ar fyrddau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn gynrychioliadol o gymunedau lleol.

Staff

47. Cytunodd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr bod angen cymryd camau i gywiro tan-gynrychiolaeth pobl ELlD. Codwyd nifer o bryderon fodd bynnag. Tynnodd y Prosiect Tai ELlD sylw at broblemau cadw staff o gymunedau ELlD. Awgrymodd CBS Wrecsam y dylai’r Cynulliad Cenedlaethol ddarparu cyllid i hyrwyddo tai fel gyrfa i’r gymuned ELlD.

48. Tra’n cefnogi, roedd CT Gwerin Cymru yn pryderu bod y cynigion ynghylch recriwtio staff ELlD yn awgrymu cyflwyno cwotâu, a fyddai’n effeithio ar ei allu i gyflogi’r staff a allai wneud y gwaith orau mewn cystadleuaeth agored yn erbyn ymgeiswyr eraill. Lleisiodd Ffederasiwn Tenantiaid Cymru bryderon tebyg os mai’r bwriad oedd mabwysiadu gwahaniaethu cadarnhaol mewn ymarferion cyflogi yn hytrach na sicrhau cydraddoldeb cyfle.

49. Galwodd CT Gwerin Cymru a CT Cymuned Caerdydd am esboniad o’r term "rhwystrau traddodiadol" i gyfleoedd recriwtio a datblygu, a ddefnyddir yn y strategaeth. Cododd CT Cymuned Caerdydd hefyd fater y pwysau ychwanegol y gallai tenantiaid eu rhoi ar staff ELlD, yn estyn o hil-gasineb uniongyrchol i anfodlonrwydd i dderbyn gair proffesiynol aelod staff ELlD. Roedd angen felly am gefnogaeth a mentora priodol.

50. Awgrymodd Tai Taf y dylai’r Cynulliad Cenedlaethol hyrwyddo gwefan genedlaethol ar gyfer hysbysebu recriwtio (swyddi gwirfoddol a chyflogedig fel ei gilydd), wedi ei anelu at gymunedau ELlD.

Hyfforddi

51. Cefnogwyd y cynigion yn gyffredinol. Awgrymodd CBS Wrecsam y dylid estyn hyfforddi i gynghorwyr lleol, aelodau byrddau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a chynrychiolwyr tenantiaid. Tynnodd sylw hefyd at yr angen am hyfforddiant ymwybyddiaeth i landlordiaid cymdeithasol ar effaith Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2000.

52. Ystyriai sawl ymatebydd bod Hyfforddiant Gweithredu Cadarnhaol mewn Tai (PATH) wedi profi’n llwyddiant o ran recriwtio staff ELlD, ond yn llai llwyddiannus o ran galluogi mynediad i reolaeth ganol. Awgrymwyd hyrwyddo a chyllido PATH yn Nghymru gan y Cynulliad Cenedlaethol.

53. Ystyriai CT Cymuned Caerdydd y dylai hyfforddiant hefyd gynnwys cyfleoedd i staff ddeall a gwerthfawrogi diwylliannau a chanfyddiadau grwpiau ELlD a wasanaethir gan eu sefydliad.

54. Mynegodd Gwasanaeth Cynghori Cyfranogiad Tenantiaid Cymru (TPAS) bryder nad oedd y strategaeth ddrafft yn dynodi lle gellid cael mynediad at hyfforddiant. Nid oedd chwaith yn dangos sut y byddid yn dod â chyfleoedd hyfforddi i sylw partïon perthnasol ac, yn achos y gymuned ELlD, sut byddai’r hyfforddiant hwn yn cael ei "werthu" iddynt i annog mynychu.

Contractwyr

55. Croesawyd y bwriad i hyrwyddo arfer da ynghylch cyflogi contractwyr ELlD.

56. Tynnodd CS Caerdydd sylw at yr angen am gorff statudol gyda digon o bwerau i gymryd camau gweithredol ynghylch diffyg cydymffurfio â materion cydraddoldeb. Ystyriai Prosiect Tai ELlD y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ymgymryd ag archwiliad o gontractwyr a benodir gan landlordiaid cymdeithasol. Dylid codi ymwybyddiaeth o'r broses dendro o fewn cymunedau ELlD a chyda chontractwyr ELlD. Dylid crynhoi a chylchredeg rhestr o gontractwyr ELlD, gyda help ariannol oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol.

57. Awgrymodd CIH Cymru y dylid cynnwys argymhellion *'BME Housing Strategies: A good practice guide 2000'* ar yr agwedd hon yn Strategaeth Dai ELlD.

**Cyfathrebu ac Ymgynghori**

58. Roedd pob ymatebydd yn croesawu'r cynigion yn yr adran hon yn gyffredinol. Tra'n cefnogi darparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o gyfryngau ac ieithoedd, tynnodd CS Caerdydd a TPAS Cymru sylw at yr angen i gynnwys cymunedau ELlD yn ystyrlon ym mhob agwedd ar gyflwyno gwasanaethau, a phroblemau gwneud hynny. Mynegodd CT Dewi Sant bryder ynghylch y costau anghymesur o uchel ar gyfer sefydliadau llai o faint, ac awgrymodd bod y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried cyllid ar gyfer datblygu ffynonellau gwybodaeth o'r fath.

59. Ystyriai CIH Cymru bod y term "an ewroganolog) (a ddefnyddir yn yr adran hon) yn anffodus gan fod llawer o bobl ELlD yn y DU yn ail neu drydedd genhedlaeth, gyda rhai yn eu hystyried eu hunain yn ddim ond Prydeinwyr heb unrhyw gysylltiad â chartrefi gwreiddiol eu rhieni neu eu rhieni cu.

60. Gwnaethpwyd nifer o bwyntiau ynghylch cyfansoddiad cymdeithasau tenantiaid. Awgrymodd CBS Wrecsam y dylai fod etholiadau agored blynyddol ar gyfer cynrychiolwyr tenantiaid i sicrhau cynrychiolaeth deg i'r gymuned. Awgrymodd CT Taf y dylai landlordiaid wneud ystyriaeth o faterion cydraddoldeb yn amod cyllido. Dylent hefyd gefnogi cymdeithasau tenantiaid drwy hyfforddiant a chyngor ynghylch cynnwys pobl o gymunedau ELlD. Dywedodd TPAS bod angen ymdrin â nifer o gwestiynau ynghylch materion cynrychioli yn y strategaeth.

**Datblygu rhwydweithiau a meithrin partneriaethau**

61. Roedd pob ymatebydd yn cytuno bod gweithio aml-asiantaethol a phartneriaethau yn hanfodol ar gyfer cyflawni nodau ac amcanion y strategaeth. Byddai Ffederasiwn Tenantiaid Cymru a CIH Cymru eu dau yn falch o gymryd rhan yn y Gr•p Adolygu Strategaeth Tai ELlD arfaethedig.

**Cefnogi sefydliadau tai yn cael eu harwain gan ELlD**

62. Profodd hwn i fod yn destun dadl gyda rhai sefydliadau yn cefnogi ac eraill yn gwrthwynebu'r syniad o sefydliad tai du ei arweiniad. Tynnodd Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru sylw at ddryswch ynghylch ai ar gyfer sefydliad neu gymdeithas tai ELlD roedd y cynnig. Mynegodd bryder y gallai symudiad o'r fath arwain at ddarpariaeth dai ar wahân, yn wahanol iawn i ymrwymiad y Cynulliad Cenedlaethol at brif-ffrydio a chynhwysiad cymdeithasol. Awgrymir y gallai gwasanaeth cynghori tai ELlD arbenigol fod yn briodol, gan ddefnyddio'r Gwasanaeth Cyngor Personau Anabl arfaethedig fel model. Yn yr un modd mynegodd Ffederasiwn Tenantiaid Cymru bryder y gallai sefydlu sefydliad yn cael ei arwain gan ELlD gael ei weld fel ffafrio un adran o gymdeithas. Y consensws barn llethol oedd aros am ddarganfyddiadau'r astudiaeth a ariennir gan y Cynulliad Cenedlaethol i weld a fyddai cymdeithas dai ddu ei harweiniad yn briodol yng Nghymru.

**Adolygu Strategaeth ELlD**

63. Croesawodd yr ymatebwyr y bwriad i adolygu'r strategaeth ar sail flynyddol, a thrwy hynny sicrhau ei bod yn parhau yn gyfoes ac yn ymgorffori canlyniadau ymarfer da esblygol.

64. Dywedodd CT Cymuned Caerdydd y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol, mewn ymgynghoriad â'r Gr•p Adolygu Strategaeth Dai ELlD, rhoi arwydd buan i landlordiaid cymdeithasol ynghylch y wybodaeth fonitro y byddai ei hangen.

65. Awgrymodd Gr•p Tai Gwalia, yn ychwanegol at sicrhau cynrychiolydd o'r gymuned ELlD, y gallai'r Gr•p Adolygu hefyd elwa o gael cynrychiolydd o staff ELlD yn gweithio gyda sefydliadau landlordiaid.

**Y Gyfarwyddiaeth Dai**

**Medi 2001**

**Rhestr Ymatebwyr:**

<u>Awdurdodau Lleol</u>

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyngor Sir Caerdydd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd

Cyngor Sir Penfro

Cyngor Sir Abertawe

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cymdeithasau Tai

Cymdeithas Tai Cadwyn

Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd

Cymdeithas Tai Charter

Cymdeithas Tai Clwyd Alun

Cymdeithas Tai Clwyd

Cymdeithas Tai Dewi Sant

Gr•p Tai Gwalia

Cymdeithas Tai Gwerin Cymru

Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru

Cymdeithas Tai Gogledd Cymru

Cymdeithas Tai Sir Benfro

Cymdeithas Tai Taf

Cymdeithas Tai Cymru a'r Gorllewin

Sefydliadau Eraill

Black Association of Women Step Out (BAWSO)

Prosiect Tai ELlD

Gofal a Thrwsio Cymru

Sefydliad Siartredig Tai Cymru

Shelter Cymru

Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru

Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru

Ffederasiwn Tenantiaid Cymru